Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Meddwl am y Dyfodol -

Dysgu drwy gysylltiadau rhyngwladol ymhen 40 a 200 mlynedd

Caredigrwydd neu Undod

(Blwyddyn 10-11)

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad	03
Ein cefndir	04-05
Diben yr Adnodd	06-07
Sut i ddefnyddio’r adnodd	08
Crynhoi gweithgareddau	09
Cynlluniau Gwersi	10-15
Adnoddau	16-19
Dolenni Pellach	20

Cydnabyddiaethau

Wedi’i ddatblygu mewn partneriaeth â Taith a Dolen Cymru Lesotho, mae'r adnodd hwn wedi’i seilio ar leisiau a phrofiadau bywyd cymunedau, addysgwyr, a phobl ifanc yng Nghymru a Lesotho.

© Taith a Dolen Cymru Lesotho | Caniateir ddefnydd addysgol gyda chydnabyddiaeth

Croeso i

Meddwl am y Dyfodol

Adnoddau Caredigrwydd neu Undod

Mae’r adnodd hwn yn helpu disgyblion i ystyried y thema **Caredigrwydd neu Undod** drwy hunaniaeth, perthyn, tegwch a gwerthoedd.

Mae’n meithrin hyder o ran deall sut mae cymunedau yn gwneud penderfyniadau a sut mae’r syniad o berthyn yn cael ei fynegi yng Nghymru a Lesotho.

Ein Cefndir

Dolen Cymru ywcyswllt cyfeillgarwch rhyngwladolmwyaf hirsefydlog Cymru. Ers 1985, maeDolenCymruwedidatblygu perthnasoedd rhwng Cymru a Lesotho drwy brosiectau addysg, diwylliant, iaith, iechyd a chymuned.

Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae cysylltiad wrth galon popeth a wnânt.

Ers dros ddeugain mlynedd, mae Dolen Cymru wedi:

- helpu athrawon yng Nghymru a Lesotho i ddysgu gan ei gilydd
- cefnogi partneriaethau ysgol a chyfnewidiadau Dosbarth
- datblygu adnoddau sy'n dathlu gwerthoedd a hanesion cyffredin
- creu cyfleoedd i bobl ifanc fagu hyder a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd
- cryfhau cysylltiadau cymunedol drwy gyfeillgarwch, parch a thegwch.

Meddwl am y Dyfodol

Pam Cymru ↔ Lesotho?
Er bod Cymru a Lesotho yn lleoedd gwahanol iawn, mae llawer o debygrwydd:

- hunaniaeth ddiwylliannol gryf
- ieithoedd a thraddodiadau cyfoethog
- ymdeimlad dwfn o gymuned a pherthyn
- hanes o wydnwch ac undod
- wrth eu bodd â cherddoriaeth, adrodd straeon a'r dirwedd

Mae gwaith Dolen Cymru yn dod â'r elfennau cyffredin hyn ynghyd fel y gall plant ddysgu:

"Mae ein hunaniaeth yn cael ei siapio gan y lleoedd yr ydym yn perthyn iddynt, y straeon yr ydym yn eu rhannu, a'r gwerthoedd sy'n llywio ein ffordd o fyw."

<u>Ein nod mewn addysg</u>

Mae Dolen Cymru yn cefnogi athrawon drwy ddarparu adnoddau ymarferol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm sy'n:

✔**dathlu hunaniaeth, iaith a diwylliant**
✔**hyrwyddo tegwch, parch a chynhwysiant**
✔**helpu plant i wneud cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho**
✔**meithrin hyder a chwilfrydedd**
✔**annog dinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o wrth-hiliaeth**

Mae'r adnodd hwn yn rhan o'r weledigaeth gyffredin honno.

Diben yr Adnodd

Mae’r adnodd hwn yn canolbwyntio ar y thema **Caredigrwydd neu Undod (agweddau a’u gweithredoedd)**, ac ar yr un pryd yn ystyried hunaniaeth, perthyn, tegwch a gwerthoedd cymunedol. Fe'i cynlluniwyd drwy lygad gwrth-hiliol ac mae'n cynnwys cymhwysedd digidol ystyrlon drwy gydweithio ag ysgol bartner yn Lesotho.

Mae’r gweithgareddau yn cefnogi meysydd allweddol Cwricwlwm Cymru ar draws y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Celfyddydau Mynegiadol a’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, helpu disgyblion i ddeall y gorffennol wrth fyfyrio ar bwy ydynt heddiw.

Gwerthoedd Craidd

Cysylltiad Diwylliannol

Mae’r adnodd hwn yn gwella dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth eu hunain wrth ddatblygu cysylltiadau ystyrlon rhwng Cymru a Lesotho. Mae’n hyrwyddo chwilfrydedd, parch a balchder mewn treftadaeth ddiwylliannol.

Cymuned

Mae’r gweithgareddau yn annog tegwch, empathi a gwneud penderfyniadau ar sail gwerthoedd. Mae disgyblion yn dysgu am sut mae cymunedau yn y gorffennol a'r presennol yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel, eu cynnwys a'u trin â pharch.

Diben yr Adnodd

Pryd i ddefnyddio Padlet

Mae hwn yn Padlet a rennir rhwng eich ysgol a'ch dosbarth partner yn Lesotho.

Sganiwch y cod QR isod i gyrchu'r Padlet a phostio yn y golofn gywir.

Gall athrawon arddangos postiadau'r ysgol bartner i'r dosbarth fel y gall disgyblion gymharu syniadau, cyfnewid ffyrdd o feddwl a dysgu gan ei gilydd.

Gallwch ddefnyddio Padlet i rannu myfyrdodau'ch myfyrwyr.

Padlet

Beth i'w uwchlwytho

Prif dasg, gwrando addewid a/neu erthygl cylchgrawn a cherdyn gorffen

Dylai disgyblion rannu syniadau ynghylch sut gallai bywyd fod yn decach neu'n well yng Nghymru neu Lesotho yn y dyfodol.

Sut i ddefnyddio’r Adnodd hwn

Resource 1

Do They Know It's Christmas?

It's Christmas time
There's no need to be afraid
At Christmas time
We let in light and we banish shade

And in our world of plenty
We can spread a smile of joy
Throw your arms around the world
At Christmas time

But say a prayer
Pray for the other ones
At Christmas time
It's hard, but when you're having fun

There's a world outside your window
And it's a world of dread and fear
Where the only water flowing
Is the bitter sting of tears

And the Christmas bells that ring there
Are the clanging chimes of doom
Well, tonight thank God it's them
Instead of you

And there won't be snow in Africa
this Christmas time
The greatest gift they'll get this year
is life (oh)
Where nothing ever grows, no rain
nor rivers flow
Do they know it's Christmas time at
all? (oh)

(Here's to you) Raise a glass for
everyone
(Here's to them) Underneath that
burning sun
Do they know it's Christmas time at
all?

Feed the world Feed the world
Feed the world Let them know it's
Christmas time again.

Gellir cyflwyno’r pecyn hwn fel cyfres lawn o wersi, fel sesiynau unigol, neu ochr yn ochr â’r testunau ategol.

Mae pob pwnc yn cynnwys:

- Amcan dysgu clir
- Canllawiau addysgu cam wrth gam
- Syniadau gwahaniaethu a dilyniant
- Adnoddau gweithgareddau disgyblion
- Tasg i fyfyrio neu i gloi

Gall athrawon ddilyn y drefn a awgrymir neu ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â’u helfen gwricwlwm dan sylw a’r amser sydd ar gael. Mae’r codau QR yn y pecyn hwn yn mynd â chi’n syth at y deunyddiau sydd eu hangen arnoch i gyflwyno pob gwers yn hyderus.

[Testun ategol]

Darperir testunau ategol i athrawon allu cyfeirio atynt i wella’u gwybodaeth ynghylch pwnc ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w defnyddio'n uniongyrchol gan ddisgyblion.

Crynhoi gweithgareddau

Mae ein rhaglen yn cynnwys

Mae disgyblion yn rhannu eu gwaith â dosbarth partner yn Lesotho drwy uwchlwytho darluniau, capsiynau neu negeseuon llafar ynghylch eu cartref, eu hysgol neu eu symbolau. Mae gweld postiadau ei gilydd yn helpu disgyblion i ddysgu am hunaniaeth a pherthyn o safbwynt byd-eang, sy'n cefnogi dull gwrth-hiliol wedi'i wreiddio mewn cysylltiad lle mae plant Cymru a Lesotho'n dathlu eu diwylliannau a'u gwerthoedd mewn modd cyfartal.

Hawliau Plant

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu

Ystyried sut mae hawliau plant yn helpu plant i deimlo'n ddiogel, teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n amddiffyn a chefnogi plant yn deg.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgrifennu ysgogiad ar y bwrdd: "Nid yw cael hawl yn gwarantu tegwch."

Tasg

- Mae myfyrwyr yn dewis Cytuno / Anghytuno / Mae'n dibynnu (naill ai sefyll neu ysgrifennu).
- Maent yn ysgrifennu un rheswm yn unig - dim trafod ar y funud.

Gweithgaredd 1

Tasg: Mae myfyrwyr yn darllen y ddau ddetholiad byr ac yn gwneud nodiadau ar gyfer:

- Yr hawl:Pa hawl sy'n cael ei henwi?
- Cyfrifoldeb: Cyfrifoldeb pwy yw ei diogelu?
- Systemau: Pa gyfreithiau, gwasanaethau, neu sefydliadau sy'n gwneud iddi weithio?

Cwestiynau penodol:

- Yn nwylo pwy mae'r pŵer yn y testun hwn?
- Beth y mae disgwyl iddo ddigwydd pan mae'r hawl yn bodoli?

(Byddwch yn llym: uwcholeuo, tanlinellu, nodiadau byr ar yr ochr yn unig)

Gweithgaredd 2

Tasg

Mae myfyrwyr yn cymharu'r ddau destun ac yn ysgrifennu paragraff cymharu.

Ar ôl ysgrifennu:

- Mae un myfyriwryn darllen ei baragraff
- Mae'n rhaid i fyfyriwr arall herio neu ymhelaethu ar hyn gan ddefnyddio
- "Fodd bynnag..." neu "Mae hyn yn dibynnu ar..."

Gweithgaredd 3

Tasg: Mae myfyrwyr yn trosi pob testun hawliau plant yn ddiagram llif syml sy'n dangos sut mae disgwyl i'r hawl weithio mewn bywyd go iawn:

Yr hawl yn bodoli → Pwy sy'n gweithredu → Pa adnoddau sydd eu hangen → Pwy sy'n penderfynu → Canlyniad tebygol.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ychwanegu ⚠ sef symbol rhybuddio pryd bynnag y gallai'r broses fethu neu ddod yn annheg. Pryd mae tegwch yn y broses hon yn dibynnu ar systemau (cyfreithiau, gwasanaethau, cyllido, gwneud penderfyniadau) yn hytrach na bwriad da?

Her

Cymharwch un pwynt methu yng Nghymru ac un yn Lesotho, gan egluro pam y gall yr un hawl arwain at ganlyniadau gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol.

Hawliau Plant

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae hawliau plant yn helpu plant i deimlo'n ddiogel, teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n amddiffyn a chefnogi plant yn deg.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 4

Tasg

Mae myfyrwyr yn ysgrifennu dau bennawd ynghylch yr un hawl:

- Un drwy lygaid caredigrwydd
- Un drwy lygaid undod

Yna, maent yn ysgrifennu 2-3 o frawddegau'n egluro'r gwahaniaeth.

Enghraifft

- "Helpu Plant i Gyrchu Addysg"
- "Mae Plant yn Llywio Penderfyniadau Ynghylch Eu Haddysg"

Canllawiau recordio: 30-60 o eiliadau, egluro'n glir, dim araith, fe anogir tystiolaeth neu enghreifftiau o Gymru neu Lesotho.

Her KS4

Mae myfyrwyr yn ychwanegu un frawddeg sy'n egluro pam nad yw bwriad da ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau tegwch.

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Mae myfyrwyr yn gorffen y frawddeg hon: "Buaswn yn gwybod bod yr agwedd hon tuag at hawliau plant yn deg os..."

Mae'n rhaid iddynt gynnwys:

- llais
- gwneudpenderfyniadau
- systemau

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho fyfyrdodau neu neges lafar. Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Hawliau ar waith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae pobl yng Nghymru a Lesotho yn rhoi tegwch ar waith drwy wrando, cefnogi pobl eraill a chydweithio, a chymharu sut mae cymunedau'n gwneud penderfyniadau sy'n parchu hawliau pawb.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Dechrau Arni

Ysgogiad:"Meddyliwch am sefyllfa a oedd yn teimlo'n deg. Beth oedd yn ei gwneud yn deg?" Ysgogwch (ar fwrdd neu ar lafar):

- Ai caredigrwydd oedd ef, neu rywbeth mwy?
- Pa reol, proses, neu benderfyniad a wnaeth y sefyllfa'n un deg?
- Yn nwylo pwy oedd y pŵer yn y sefyllfa honno?

Tasg gyflym (30-60 eiliad):

Mae myfyrwyr yn ysgrifennu un frawddeg sy'n dechrau fel hyn: Roedd yn deg oherwydd..."

Gweithgaredd 1

Tasg:

Mae myfyrwyr yn darllen un testun hawliau plant o Gymru ac un o Lesotho.

Wrth iddynt ddarllen, mae'r disgyblion yn gwneud nodiadau ar gyfer:

- Pa hawl sy'n cael ei thrafod
- Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu'r hawl honno
- Pa systemau (cyfreithiau, ysgolion, gwasanaethau, sefydliadau) a enwir fel y rhai sy'n rhoi'r hawl ar waith

Cwestiynau Penodol

- Yn nwylo pwy mae'r pŵer yn y testun hwn?
- Pa systemau sydd i fod yn diogelu'r hawl hon?
- Beth y mae disgwyl iddo ddigwydd pan mae'r hawl yn bodoli?

Gweithgaredd 2

Tasg:

Mae myfyrwyr yn cynnal archwiliad tegwch byr o un cyd-destun: eu hysgol, elusen, neu benderfyniad yn y gymuned. Mae myfyrwyr yn gweithio mewn parau i gymhwyso'r cwestiynau archwilio i'w cyd-destun dewisol ac maent yn cofnodi nodiadau cryno.

Cwestiynau:

- Pwy sy'n rhan o'r ymgynghori?
- Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol?
- Pwy sy'n cael ei eithrio neu ei anwybyddu?
- Beth sy'n digwydd os yw'r penderfyniad yn achosi niwed neu rywbeth yn mynd o'i le?

Her KS4:

Mae'n rhaid i fyfyrwyr gynnig un gwelliant strwythurol (e.e. newid i'r rheolau, prosesau, atebolrwydd, neu gynrychiolaeth), yn hytrach na newid yn ymddygiad unigolion. Mae myfyrwyr yn llunio archwiliad ysgrifenedig byr neu grynodeb pwyntiau bwled sy'n nodi sut y mae tegwch yn gweithredu, a phryd y mae'n methu.

Hawliau ar waith

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae pobl yng Nghymru a Lesotho yn rhoi tegwch ar waith drwy wrando, cefnogi pobl eraill a chydweithio, a chymharu sut mae cymunedau'n gwneud penderfyniadau sy'n parchu hawliau pawb.

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ystyried sut y tyfodd dwy gymuned yng Nghymru a Lesotho drwy degwch, cydweithio a gwerthoedd cyffredin, a sut mae'r syniadau hyn yn parhau i lywio hunaniaeth hyd heddiw.

Gweithgaredd 3

Tasg

Mae myfyrwyr yn ysgrifennu erthygl fer arddull cylchgrawn sy'n trafod sut nad yw cael hawl bob amser yn arwain at degwch mewn bywyd go iawn.

Mae'n rhaid iddynt ddefnyddio tystiolaeth o'r testun ategol hawliau pobl anabl yng Nghymru i ddangos sut mae systemau, penderfyniadau, a phŵer yn llywio a yw hawliau yn gweithio go iawn.

Gweithgaredd 4

Tasg:
Lluniwch gerdyn addewid bach sydd â'r teitl "Byddaf yn Gwrando Drwy..."

- Blwyddyn 7: Ysgrifennwch un ffordd o wrando
- Blwyddyn 8: ysgrifennwch baragraff sy'n egluro pam mae'r ffordd hon yn cefnogi tegwch
- Blwyddyn 9: eglurwch mewn paragraff sut mae gwrando'n cysylltu â hawliauneu ymdeimlad o berthyn.

Adnodd ar Dudalen 18 a 19

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:
Ail-ysgrifennwch y rheol hon fel ei bod yn arwain at degwch, nid bwriad da yn unig.

Mae myfyrwyr yn ymateb i hyn: "Dylai pobl helpu pobl eraill pan maent yn gallu." Ail-ysgrifennwch y frawddeg fel ei bod yn cynnwys pŵer, gwrando, neu atebolrwydd.

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho fyfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Band Aid ac Iechyd

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Dylech atgoffa myfyrwyr mai'r dasg yw beirniadu systemau a phenderfyniadau, nid pobl neu gymunedau.

Dechrau Arni

Datganiad:

"Mae codi ymwybyddiaeth bob amser yn beth da."

Mae myfyrwyr yn sefyll wrth y categori Cytuno / Ansicr / Anghytuno, yn trafod eu dewis â phartner, ac yn ymateb gan ddefnyddio un o'r ysgogiadau hyn: Ar gyfer pwy mae'r ymwybyddiaeth? Pwy sy'n rheoli'r neges? Pwy sy'n cael y budd mwyaf? A all ymwybyddiaeth weithio heb wrando? **Gall myfyrwyr newid categori oscânt eu perswadio i wneud hynny ac maent yn egluro pam yn gryno**.

Gweithgaredd 1

Tasg

Rhowch eiriau'r gân Band Aid i fyfyrwyr. Mae myfyrwyr yn dadansoddi:

- Pwy sy'n siarad?
- Pwy sy'n cael ei ddangos?
- Pwy sy'n penderfynu?
- Beth sy'n cael ei symleiddio neu ei adael allan?
- Beth sy'n cael ei rhagdybio?

Her:

Mae'n rhaid i bob grŵp nodi un risg moesegol yr ymgyrch ac un peth sy'n diogelu moeseg yr ymgyrch. **Adnodd 1, tud 16**

Gweithgaredd 2

Tasg

Mae myfyrwyr yn darllen y ddau destun ategol ac yn dechrau trafodaeth sy'n cymharu y caiff iechyd, cymorth a gwneud penderfyniadau eu cefnogi heb ymgyrch gan enwogion.

Cwestiynau penodol (dewiswch 3-4):

- Pwysy'n siarad?
- Gwybodaeth neu brofiad pwy sy'n cael ei werthfawrogi?
- Sut y gwneir penderfyniadau ynghylch iechyd?
- Ym mha rannau yr ydych chi'n gweld y weithred o wrando?
- Beth sy'n teimlo'n wahanol o'i gymharu â'r ymgyrch Band Aid?

Her:

- Nodwch un nodwedd o'r testunau ategol a allai wella'r ymgyrch Band Aid.
- Eglurwch sut y byddai'r newid hwn yn ei symud o garedigrwydd i undod.

Band Aid ac Iechyd

Syniadau Addysgu

Amcan Dysgu:

Ystyried sut mae iechyd a salwch yn effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru a Lesotho, a chymharu sut mae cymunedau'n ymateb â gofal, cymorth a thegwch.

Cyd-destun

Dylech atgoffa myfyrwyr mai'r dasg yw beirniadu systemau a phenderfyniadau, nid pobl neu gymunedau.

Gweithgaredd 3

Tasg:

Mae datganiadau senario argraffedig wedi'u gludo i bapur a3 i'w gweld o gwmpas yr ystafell.

Gan weithio mewn parau, mae myfyrwyr yn symud o gwmpas ac yn ymateb i bob senario gyda nodiadau ysgrifenedig cryno:

- A yw hyn yn foesegol?
- Pwy sy'n cael y budd mwyaf?
- A yw hyn yn adlewyrchu caredigrwydd, undod, neu'r ddau?

Her KS4: Mae'n rhaid i fyfyrwyr gyfiawnhau eu hymatebion drwy gyfeirio at bŵer, systemau, a gwneud penderfyniadau, nid teimladau neu farn bersonol. **Adnodd 2, tud. 17**

Gweithgaredd 4

Cwestiwn: Pam nad yw bwriad da yn ddigon i sicrhau tegwch? Mae myfyrwyr yn ysgrifennu un paragraff gwerthuso byr i ymateb i'r cwestiwn, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r wers.

Meini prawf llwyddo:

- Yn cyfeirioat bŵer, gwneud penderfyniadau, neu systemau
- Yn defnyddio enghraifft o Band Aid neu Gymru/Lesotho
- Yn gwerthuso effaith a chanlyniadau, nid bwriad yn unig

Cerdyn Gorffen Meddwl am y Dyfodol

Ysgogiad:

Un peth y dysgais ynghlych helpu pobl eraill mewn ffordd gyfrifol oedd…

Padlet

Padlet ar y cyd rhwng eich ysgol a dosbarth partner yn Lesotho. Defnyddiwch y **DDOLEN** i gyrchu ein padlet ac uwchlwytho lluniadau gyda neu heb gapsiwn byr neu uwchlwytho fyfyrdodau neu neges lafar.

Gall athrawon ddangos Padlet yr ysgol bartner i'r dosbarth, gan alluogi disgyblion i gyfnewid gwaith, rhannu syniadau a dysgu gan ei gilydd.

Do They Know It's Christmas?

It's Christmas time
There's no need to be afraid At
Christmas time
We let in light and we banish shade

And in our world of plenty We can
spread a smile of joy
Throw your arms around the world
At Christmas time

But say a prayer
Pray for the other ones At Christmas
time
It's hard, but when you're having fun

There's a world outside your window
And it's a world of dread and fear Where
the only water flowing
Is the bitter sting of tears

And the Christmas bells that ring there
Are the clanging chimes of doom
Well, tonight thank God it's them

Instead of you

And there won't be snow in Africa this
Christmas time
The greatest gift they'll get this year
is life (oh)
Where nothing ever grows, no rain nor
rivers flow
Do they know it's Christmas time at
all? (oh)

(Here's to you) Raise a glass for
everyone
(Here's to them) Underneath that
burning sun
Do they know it's Christmas time at
all?

Feed the world Feed the world Feed
the world Let them know it's Christmas
time again.

Iechyd a HIV

CAREDIGRWYDD NEU UNDOD

Mae cefnogi iechyd yn gweithio orau pangaiffbobl rhywunyn gwrando arnynt, yn eu cynnwys, a'u parchu mewn penderfyniadau ynghylch eu bywydau personol.

1 Mae ymgyrch fyd-eang yn codi ymwybyddiaeth ynghylch materion iechyd gan ddefnyddio enwogion a negeseuon emosiynol, ond ni chaiff y bobl yr effeithir arnynt eu cynnwys wrth lunio'r neges.

2 Mae prosiect iechyd yn gweithio â sefydliadau lleol i benderfynu ar flaenoriaethau, rhannu gwybodaeth, a chynllunio datrysiadau ar y cyd dros amser.

3 Yn ystod argyfwng, mae sefydliadau o'r tu allan yn gweithredu'n gyflym i roi cymorth, ac yn gwneud penderfyniadau eu hunain oherwydd maent o'r farn bod cyflymder yn bwysicach nag ymgynghori.

4 Defnyddir cerddoriaeth a'r cyfryngau i godi llwyth o arian i achosion iechyd, ond caiff y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ynghylch gwario eu gwneud gan sefydliadau sy'n bell i ffwrdd o'r cymunedau yr effeithir arnynt.

5 Mae gweithwyr iechyd yn y gymuned yn dylunio datrysiadau yn seiliedig ar eu profiadau bywyd, er bod y syniadau hyn yn cael llai o gyllid neu lai o sylw rhyngwladol.

6 Mae sefydliad rhyngwladol yn cefnogi gwaith iechyd drwy ariannu grwpiau lleol, rhannu adnoddau, a chamu'n ôl o wneud penderfyniadau ar ôl i bartneriaethau gael eu sefydlu.

Dolen LESOTHO CYMRU

Beth yw eich addewid?

Rwy'n addo gwrando ar bobl eraill gyda gofal a pharch

Llofnodwch yma:

#UndodDolen #GwrandoGydaPharch

Dolen LESOTHO CYMRU

Beth yw eich addewid?

Rwy'n addo ...

Llofnodwch yma:

#UndodDolen #GwrandoGydaPharch

DOLENNI PELLACH

Fuse ODG ar Band Aid Sengl

elusen Africa for Norway

Podlediad Iechyd a HIV yng Nghymru

Podlediad Iechyd a HIV yn Lesotho

Fideo Bandaid

Podlediad Hawliau Basatho a Chymru Ar Waith

Podlediad Hawliau Basatho

Podlediad Hawliau Cymru

MANYLION CYSWLLT

Dolen Cymru Lesotho

Dysgwch ragor am y bartneriaeth Cymru-Lesotho:

https://www.dolencymru.org

swyddfa@dolencymru.org

Taith

Dysgwch ragor am gyfleoedd dysgu cyfleoedd dysgu:

https://www.taith.wales

Dolen LESOTHO CYMRU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Taith

Dolen LESOTHO CYMRU

Taith

Dysgu ar y Cyd, Gwella ar y Cyd

Arolwg adborth

Mae’r adnoddhwn yn cael ei ddatblygu drwy brofiadau cyffredin. Sganiwch i helpu i lywio’r rhifyn nesaf.